# SL(6)489 – Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr ysgolion y maent yn eu cynnal, a sicrhau bod y cynllun yn cael ei fabwysiadu ganddyn nhw eu hunain a chan bob corff llywodraethu sy'n awdurdod derbyn ar ysgol a gynhelir yn eu hardal.

Rhaid llunio’r cynllun cymhwysol cyntaf a’i fabwysiadu erbyn 1 Ionawr 2025 ac erbyn 1 Ionawr ar gyfer pob blwyddyn ddilynol. Bydd y cynllun cymhwysol cyntaf yn gymwys i drefniadau derbyn yn y flwyddyn academaidd 2027 i 2028.

Dywed Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru mai diben y Rheoliadau hyn yw:

> *“galluogi awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn eraill i weithredu'n fwy effeithlon drwy helpu i leihau'r gost a'r amser a ddefnyddir yn sgil achosion o ddal gafael ar fwy nag un cynnig ysgol. Os na wneir [y] Rheoliadau [hyn], bydd rhai rhieni yn parhau i ddal gafael ar nifer o gynigion o leoedd, ond rhieni eraill efallai yn cael dim.”*

Yn ogystal, mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 i’w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brosbectws cyfansawdd, i'w benderfynu bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol.

- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 er mwyn cywiro camgymeriadau drafftio yn rheoliad 3 a rheoliad 5 o’r Rheoliadau hynny.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 12 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn y rhaglith, yn y testun Saesneg, mae enw'r Ddeddf alluogi yn anghywir. Cyfeirir ati fel "the **Schools** Standards and Framework Act 1998". Fodd bynnag, dylid cyfeirio ati gan ddefnyddio ei henw cywir, fel y gwneir ym mhobman arall yn y Rheoliadau hyn, sef "the **School** Standards and Framework Act 1998".

2. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "cynllun Gweinidogion Cymru", mae'r cyfeiriad at "**is-**adran 89B(2) o Ddeddf 1998" yn anghywir, a dylid cyfeirio ati fel "**adran** 89B(2) o Ddeddf 1998" (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 6.16 ynghylch cyfeiriadau cyfansawdd). Mae'r un mater yn codi yn rheoliad 9, yn y diffiniad o "y cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr awdurdod lleol" ym mharagraff newydd 5A(2)(b).

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "Welsh Minister scheme" yn y testun Saesneg, a ddylai'r diffiniad ddefnyddio'r enw meddiannol lluosog, sef "Welsh Minister**s'** scheme"? Mae angen eglurhad mewn perthynas â'r diffiniad a ddefnyddiwyd.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Dim ond yn rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn y defnyddir y term "diwrnod gwaith" fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1). Felly, dim ond mewn darpariaeth ddehongli sy'n ymddangos yn y rheoliad hwnnw y dylid diffinio'r term (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.13(1)). Mae angen eglurhad, felly, ynghylch pam y mae'r term wedi'i ddiffinio yn rheoliad 2 ac nid yn rheoliad 6.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 2(1), mae'r diffiniad o "diwrnod gwaith" yn dweud nad yw diwrnod "sy'n ŵyl banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971" yn ddiwrnod gwaith. Fodd bynnag, mae Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 yn pennu pa ddiwrnodau sy'n wyliau banc yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Felly, mae'r diffiniad o "diwrnod gwaith" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn eithrio gwyliau banc yn yr Alban a Gogledd Iwerddon o ystyr "diwrnod gwaith" yn ogystal â gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr. Gofynnir am eglurhad ynghylch ai dyna yw bwriad y polisi ai peidio.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Rhoddir ystyr ymhlyg i'r term "diwrnod gwaith" yn Offerynnau Statudol Cymru, fel y Rheoliadau hyn, gan Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Dim ond gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr y mae'r diffiniad yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn eu heithrio o ystyr "diwrnod gwaith". Felly, nid oedd angen diffinio "diwrnod gwaith" mewn unrhyw ddarpariaethau dehongli a geir yn y Rheoliadau hyn os bwriedid i'r term fod â'r un ystyr ag a roddir gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

**7. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 6, mae strwythur paragraff (1) yn anghywir gan fod is-baragraff (a) heb is-baragraff (b) ar ei ôl. Mae hyn yn peri dryswch i'r darllenydd gan ei fod yn creu amheuaeth ynghylch a oes darpariaeth ychwanegol ar goll o'r testun. Yn ogystal, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau "a" ac "ar gyfer" wedi'u cyfuno mewn un gair, ac yn y testun Saesneg, mae'r geiriau "and" a "for" hefyd wedi'u cyfuno mewn un gair. Yn hyn o beth, ymddengys mai'r bwriad oedd creu is-baragraff (b) ychwanegol a fyddai'n dechrau â'r geiriau "ar gyfer ysgolion uwchradd" ar ôl y cysylltair "a" yn y testun Cymraeg, ac â'r geiriau "for secondary schools" ar ôl y cysylltair "and" yn y testun Saesneg.

**8. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 7(3)(a), mae cyfeiriad anghywir at "adran 578**(1)** o Ddeddf 1996". Fodd bynnag, nid oes is-adran (1) yn adran 578 o Ddeddf 1996. Felly, dylid cyfeirio at "adran 578 o Ddeddf 1996". Mae'r is-adran (1) ychwanegol wedi'i nodi'n anghywir yn y fersiwn wedi'i choladu o adran 578 yn Neddf 1996 ar Lexis, ond dangosir y ddarpariaeth yn gywir ar legislation.gov.uk a Westlaw.

**9. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 7(3), yn y testun Saesneg, yn is-baragraffau (a) a (b), dangosir y termau Cymraeg cyfatebol mewn llythrennau italig a chromfachau ar ôl y diffiniadau. Ond mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylid gwneud hyn pan roddir pob diffiniad mewn darpariaeth sydd â rhif ar wahân, fel yn yr is-baragraffau hyn (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.15(7)).

**10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 9, mewnosodir paragraff newydd 5A yn Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011. Ym mharagraff newydd 5A(1), ym mharagraffau (a) ac (e), defnyddir y termau "cais" a "ffurflen gais gyffredin", yn y drefn honno, sydd wedi'u diffinio yn rheoliad 2(1) at ddibenion Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Fodd bynnag, nid yw'r termau hyn wedi'u cynnwys gyda'r diffiniadau a restrir yn is-baragraff (2) o baragraff newydd 5A. Felly, ni roddwyd yr un ystyr

iddynt ym mharagraff 5A o Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011. Gofynnir am eglurhad ynghylch ai dyna'r bwriad ar gyfer y ddau derm hynny.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 9, ym mharagraff newydd 5A(2) a fewnosodir yn Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniadau Saesneg cyfatebol wedi'u nodi mewn llythrennau italig a chromfachau ar ôl pob diffiniad. Yn y testun Saesneg, nid yw'r diffiniadau Cymraeg cyfatebol wedi'u nodi ar ôl pob diffiniad. Yn hyn o beth, y testun Cymraeg sy'n gywir am ei fod yn dilyn canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, sef y dylid cynnwys y diffiniadau yn yr iaith gyfatebol os yw'r diffiniadau'n ymddangos mewn rhestr heb rifau (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.15(6)).

**12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 9, yn y diffiniad o "y cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr awdurdod lleol", ym mharagraff 5A(2)(a), mae cyfeiriad at gynllun a fabwysiedir gan awdurdod lleol "yn unol â rheoliad **2(1)** o Reoliadau 2024". Fodd bynnag, mae angen eglurhad ynghylch a ddylai gyfeirio at "rheoliad **3(1)** o Reoliadau 2024", sy'n gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau cymhwysol.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Nid ydym o'r farn y bydd y mân wall mewn rhan nad yw'n weithredol o Reoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn camarwain unrhyw un. Fodd bynnag, byddwn mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y ffordd orau o gywiro'r gwall a adroddwyd.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Er nad ydym o'r farn y bydd y mân wall yn camarwain unrhyw un, bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt cyn diwedd tymor presennol Senedd Cymru fan bellaf ac yn gynt os bydd modd.

Pwynt Craffu Technegol 3: Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Defnyddir y term "Welsh Minister scheme" yn gyson drwy gydol yr offeryn. Er y gellid bod wedi defnyddio'r term arall, "Welsh Ministers' scheme", rydym o'r farn bod y ddau ddull yn rhoi'r un effaith gyfreithiol i'r polisi.

Pwynt Craffu Technegol 4: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt a wnaed am y lleoliad cywir ar gyfer y diffiniad, o ystyried nad yw ond yn digwydd unwaith yn yr offeryn a'r dull a ddefnyddiwyd gyda diffiniadau "defnydd untro" eraill o'r fath yn yr offeryn. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y bydd lleoliad y diffiniad yn camarwain unrhyw un ac nid ydym yn bwriadu diwygio Rheoliadau 2024 mewn cysylltiad â hyn.

Pwynt Craffu Technegol 5: Derbynnir mai effaith y diffiniad o "diwrnod gwaith" yn rheoliad 2(1) yw eithrio'r holl wyliau banc fel y'u diffinnir yn adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971, a byddai hynny hefyd yn eithrio gwyliau banc yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban o'r diffiniad o ddiwrnod gwaith yn yr offeryn. Y bwriad oedd eithrio gwyliau banc ar gyfer Cymru a Lloegr yn unig.

Pwynt Craffu Technegol 6: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n well dibynnu ar y diffiniad o "diwrnod gwaith" yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt cyn diwedd tymor presennol Senedd Cymru fan bellaf ac yn gynt os bydd modd.

Pwynt Craffu Technegol 7: Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Nid yw'r fersiwn a lofnodwyd o Reoliadau 2024 yn cynnwys y gwall a nodwyd. Ymddengys fod y gwall wedi digwydd yn ystod proses gyhoeddi Rheoliadau 2024, a byddwn mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau i gywiro'r fersiwn a gyhoeddwyd, fel ei bod yn adlewyrchiad cywir o'r fersiwn a lofnodwyd.

Pwynt Craffu Technegol 8: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd a gododd yn sgil dibyniaeth ar wall yn y gronfa ddata gyfreithiol, Lexis. Er nad ydym o'r farn y bydd y mân wall yn camarwain unrhyw un, bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt cyn diwedd tymor presennol Senedd Cymru fan bellaf ac yn gynt os bydd modd.

Pwynt Craffu Technegol 9: Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y ddarpariaeth yn ddiffygiol neu ei bod yn methu â bodloni gofynion statudol. Mae'r ddarpariaeth yn effeithiol yn gyfreithiol ac mae ei hystyr yn glir.

Pwynt Craffu Technegol 10: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt cyn diwedd tymor presennol Senedd Cymru fan bellaf ac yn gynt os bydd modd.

Pwynt Craffu Technegol 11: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt cyn diwedd tymor presennol Senedd Cymru fan bellaf ac yn gynt os bydd modd.

Pwynt Craffu Technegol 12: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r pwynt cyn diwedd tymor presennol Senedd Cymru fan bellaf ac yn gynt os bydd modd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.